IS-DDEDDFWRIAETH

2017 Rhif (Cy.38)

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 3) 2017

Gwnaed	*1 Tachwedd 2017*
Yn dod i rym	*1 Tachwedd 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 3) 2017.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2017.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Felindre(2) ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

2. Yng Nghyfarwyddyd 2, yn lle'r diffiniad o "y Cytundeb" rhodder—

(1) 2006 p. 42.
(2) Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838) (fel y'i diwygiwyd).

"ystyr "y Cytundeb" ("*the Agreement*") yw'r Cytundeb Gweithredol a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar 1 Tachwedd 2017 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;".

Steve Elliot,
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Gyfarwyddiaeth Gyllid, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

1 Tachwedd 2017